Babanod Newydd-anedig | Rhagfyr 2023

# Deall llwybrau gofal a sefydlogrwydd lleoliadau ar gyfer babanod yng Nghymru.



**Awduron**

Laura Cowley
Laura North
Karen Broadhurst
Stefanie Doebler
Bachar Alrouh
Linda Cusworth
Mariam Abouelenin
Lucy Griffiths

Nuffield Family Justice Observatory

**Crynodeb**

# Mae'r crynodeb hwn yn amlygu prif ganfyddiadau adroddiad sy'n darparu tystiolaeth newydd ynglŷn â llwybrau mynediad i ofal, llwybrau trwy ofal, a chanlyniadau lleoliadau ar gyfer y plant ieuengaf oll yn y system ofal yng Nghymru. Dyma'r seithfed yn y gyfres Mewn Gofal o'u Geni.


**Awduron**

Dr Laura Cowley, Prifysgol Abertawe

Dr Laura North, Prifysgol Abertawe

Yr Athro Karen Broadhurst, Prifysgol Caerhirfryn

Dr Stefanie Doebler, Prifysgol Caerhirfryn

Dr Bachar Alrouh, Prifysgol Caerhirfryn

Dr Linda Cusworth, Prifysgol Caerhirfryn

Dr Mariam Abouelenin, Prifysgol Caerhirfryn

Dr Lucy Griffiths, Prifysgol Abertawe.



**Cyfeiriad argymelledig**

Cowley, L., North, L., Broadhurst, K., Doebler, S., Alrouh, B.,Cusworth, L., Abouelenin, M. a Griffiths, L. (2023). *Deall llwybrau gofal a sefydlogrwydd lleoliadau ar gyfer babanod yng Nghymru*. Crynodeb. Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. https://www.nuffieldfjo.org.uk/resource/understanding-care-pathways-and-placement-stability-for-babies-in-wales
Ar gael yn Saesneg yn: www.nuffieldfjo.org.uk

Adroddiad llawn ar gael yn: https://popdatasci.swan.ac.uk/wp-content/uploads/2023/11/Infant_care_pathways_final-report.pdf

# Cynnwys


Cyflwyniad ....................................................................................1
Data a chyfyngiadau.......................................................................3
Canfyddiadau allweddol ..................................................................5
Casgliadau ....................................................................................15
Cyfeiriadau ...................................................................................17


Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn mewn partneriaeth â’r canlynol:

Family Justice Data Partnership

Centre for Child & Family Justice Research

Lancaster University

SAIL DATABANK

Population Data Science at Swansea University

Swansea University Prifysgol Abertawe Medical School Ysgol Feddygaeth

**Ymwadiad**

Mae Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield wedi ariannu’r prosiect hwn, ond safbwyntiau’r awduron yw’r rhai a fynegir ac nid, o reidrwydd, Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield na’r Sefydliad.


Hawlfraint © Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield 2023


100 St John Street, Llundain EC1M 4EH Rhif ffôn: 020 7631 0566

Rhan o Sefydliad Nuffield: Elusen gofrestredig 206601
nuffieldfjo.org.uk | @NuffieldFJO www.nuffieldfoundation.org | @NuffieldFound

# Cyflwyniad

Dyma grynodeb o adroddiad llawn sy'n darparu tystiolaeth newydd ynglŷn â llwybrau mynediad i ofal, llwybrau trwy ofal, a chanlyniadau lleoliadau ar gyfer y plant ieuengaf oll yn y system ofal yng Nghymru.[1] Dyma'r seithfed adroddiad yn y gyfres *Mewn Gofal o'u Geni*,[2] a'r cyntaf i ddefnyddio data a gasglwyd gan awdurdodau lleol am yr holl blant mewn gofal i ddeall profiadau gofal a chanlyniadau ar gyfer babanod iau na blwydd oed.[3]

Hyd yma, mae gwaith ymchwil *Mewn Gofal o'u Geni* wedi canolbwyntio ar ddata am fabanod sy'n cael eu derbyn i ofal trwy achosion gofal o dan a.31 Deddf Plant 1989, a gasglwyd o fewn data Cafcass a Cafcass Cymru.[4] Nid yw hyn wedi cynnwys babanod sy'n cael eu derbyn i ofal gyda chytundeb rhieni. Mae defnyddio data a gasglwyd gan awdurdodau lleol yn yr astudiaeth hon wedi sicrhau bod yr holl fabanod sy'n cael eu derbyn i ofal yn cael eu cynnwys. Mae'r astudiaeth yn amlygu pedwar prif lwybr trwy ofal ar gyfer y babanod hyn.

### Nodyn ynghylch terminoleg a'r data

Yn y crynodeb hwn, cyfeiriwn at blant iau na blwydd oed fel babanod. Cyfeirir at fabanod iau na 2 wythnos oed fel babanod newydd-anedig.

Mae'r astudiaeth yn ymwneud â babanod a dderbyniwyd i ofal gyntaf rhwng mis Ebrill 2003 a mis Mawrth 2021 (6,333 o blant). Roedd cyfnod byrrach, rhwng mis Ebrill 2003 a mis Mawrth 2019, wedi caniatáu ar gyfer gwaith dilynol 2 flynedd ar yr holl fabanod a dderbyniwyd i ofal yn ystod y cyfnod hwn o dan drefniadau gwirfoddol neu orchymyn gofal interim (5,077).

---

[1] Mae'r adroddiad llawn ar gael yn: https://popdatasci.swan.ac.uk/wp-content/uploads/2023/11/Infant_care_pathways_final-report.pdf

[2] Yr adroddiadau blaenorol yn y gyfres yw: Broadhurst et al. 2018; Alrouh et al. 2019; Griffiths et al. 2020a; Griffiths et al. 2020b; Pattinson et al. 2021; a Doebler et al. 2021.

[3] Mae'r data hwn yn ffurfio Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal Llywodraeth Cymru (Allnatt et al. 2022).

[4] Cafcass a Cafcass Cymru yw'r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd yn Lloegr a Chymru, yn y drefn honno, a'u rôl mewn achosion gofal yw sicrhau bod trefniadau a phenderfyniadau awdurdodau lleol ar gyfer plant ac yn eu cylch yn eu diogelu, yn hyrwyddo eu lles a'u bod er eu lles pennaf.

# Derbyn i ofal: y cyd-destun cyfreithiol yng Nghymru

Yng Nghymru, fel yn Lloegr, mae dau brif lwybr i'r system ofal – achosion gofal a threfniadau gwirfoddol.

## Achosion gofal

Pan amlygir bod plentyn wedi dioddef niwed sylweddol trwy law rhiant neu ofalwr, neu ei fod mewn perygl o ddioddef hynny, caiff yr awdurdod lleol gychwyn achos gofal o dan a.31 Deddf Plant 1989, ac fe allai'r plentyn ddod yn destun gorchymyn gofal yn y gwrandawiad cyfreithiol terfynol. Mae gorchymyn gofal yn gosod y plentyn yng ngofal awdurdod lleol dynodedig, ac mae cyfrifoldeb rhiant yn cael ei rannu rhwng y rhieni a'r awdurdod lleol. Gallai plant sy'n destun gorchymyn gofal gael eu lleoli gyda gofalwr maeth nad yw'n perthyn iddynt, gyda'u teulu ehangach, mewn gofal preswyl, gyda darpar rieni mabwysiadol, neu aros yng nghartref eu rhieni (neu ddychwelyd iddo). Ar ddechrau'r achos, gall y llys ystyried p'un ai gwneud gorchymyn gofal interim, sy'n gosod y plentyn dan ofal neu oruchwyliaeth yr awdurdod lleol dros dro tra bod yr achos gofal yn mynd rhagddo.

## Llety gwirfoddol

Gall plant gael eu derbyn i'r system ofal ar sail wirfoddol hefyd sy'n golygu, yng Nghymru, bod yr awdurdod lleol yn darparu llety i'r plentyn o dan a.76 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (SSWWA 2014). Mae'r adran hon o Ddeddf 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu llety i blant nad oes ganddynt neb i ofalu amdanynt, neu y mae eu gofalwr yn cael ei atal rhag darparu llety neu ofal addas iddynt. Ni all awdurdodau lleol ddarparu llety o dan a.76 os yw unigolyn â chyfrifoldeb rhiant yn gwrthwynebu hynny. Hyd nes i SSWWA 2014 ddod i rym yn 2016, y ddeddfwriaeth berthnasol oedd a.20 Deddf Plant 1989. Edrychodd Goruchaf Lys Cymru a Lloegr yn fanwl ar ddefnyddio a.20 Deddf Plant 1989 yn *Williams ac un arall (Apelyddion) yn erbyn Bwrdeistref Hackney Llundain* [2018] UKSC 37. Un o bwyntiau allweddol yr achos hwn oedd, o dan yr adran hon, bod rhieni'n dirprwyo eu cyfrifoldeb rhieni i'r awdurdod lleol. Y ffordd orau o sicrhau bod y ddirprwyaeth hon yn wirfoddol yw rhoi gwybodaeth lawn i rieni am eu hawliau. Nid yw'r trefniant hwn yn cynnwys y llysoedd. Nid yw'r awdurdod lleol yn caffael cyfrifoldeb rhiant, a chaiff unrhyw unigolyn â chyfrifoldeb rhiant symud plentyn y darperir llety iddo o dan a.76/20 unrhyw bryd.

# Data a chyfyngiadau

Ystyriodd yr astudiaeth yr holl fabanod iau na blwydd oed a dderbyniwyd i ofal am y tro cyntaf rhwng 1 Ebrill 2003 a 31 Mawrth 2021 – cyfanswm o 6,333 o blant.

Dewiswyd cyfnod byrrach (1 Ebrill 2003 tan 31 Mawrth 2019) i ganiatáu am gyfnod dilynol 2 flynedd ar gyfer babanod a dderbyniwyd i ofal gyntaf yn ystod y cyfnod hwn o dan drefniadau gwirfoddol neu orchymyn gofal interim (5,077 o fabanod). Roedd hyn wedi caniatáu i'r ymchwilwyr bennu p'un a oedd plant a dderbyniwyd i ofal o dan drefniadau gwirfoddol a.76 i ddechrau wedi dod yn destun gorchymyn gofal llawn neu interim neu orchymyn lleoli wedi hynny, ac i archwilio canlyniadau ar gyfer plant ddwy flynedd yn ddiweddarach, gan gynnwys mathau o leoliadau neu resymau dros adael gofal, a ph'un a oedd plant yn cael eu haildderbyn i ofal ar ôl gadael, yn ôl statws cyfreithiol cychwynnol.

Defnyddiodd yr astudiaeth ddata gweinyddol dienw, lefel poblogaeth ac lefel unigol am blant sy'n derbyn gofal a gasglwyd gan awdurdodau lleol, a gynhelir gan Lywodraeth Cymru, ac a ddelir ym Manc Data SAIL (Ford et al. 2009; Lyons et al. 2009). Cysylltwyd y data plant sy'n derbyn gofal â set ddata Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 (Llywodraeth Cymru, 2019) i bennu'r lefel amddifadedd ar gyfer pob baban a gynhwyswyd yn yr astudiaeth.

Roedd gwybodaeth berthnasol yn cynnwys: wythnos eni, rhywedd, ethnigrwydd, ac ardal gynnyrch ehangach haen is (LSOA) y plentyn wrth gael ei dderbyn i ofal; dyddiadau dechrau a gorffen pob cyfnod o ofal; statws cyfreithiol; categori angen; y rheswm pam y dechreuodd ac y gorffennodd y cyfnod gofal; y math o leoliad; a'r awdurdod lleol.[5]

Er gwaethaf cryfderau'r astudiaeth, mae'r awduron yn nodi'r cyfyngiadau canlynol.

- Mae astudiaethau sydd wedi'u seilio ar ddata gweinyddol wedi'u cyfyngu'n anorfod gan gwmpas ac ansawdd y data sydd ar gael, a gesglir at ddibenion sefydliadol yn bennaf yn hytrach nag ymchwil.
- Wrth gofnodi data ar gyfer ffurflenni plant sy'n derbyn gofal, mae'n ofynnol i weithwyr cymdeithasol ddewis un cod 'categori angen' yn unig o blith rhestr sy'n disgrifio'r rheswm pam mae'r plentyn yn cael ei

[5] Unedau daearyddol a ddyluniwyd i adrodd am ystadegau ardal fach yw LSOAau. Mae'n rhaid iddynt gynnwys poblogaeth o 1,000 o leiaf, a phoblogaeth gymedrig yn agos at 1,600. Mae 1,909 o LSOAau yng Nghymru. I gael rhagor o wybodaeth, gweler: https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2020-02/welsh-index-multiple-deprivation-2019-technical-report.pdf

dderbyn i ofal orau – mae’r cod hwn yn aros yr un fath ar gyfer pob cyfnod o ofal y gallai’r plentyn ei brofi. Yn ogystal, dyfarniad goddrychol ydyw, ac mae’n bosibl y gallai’r gwahanol gategorïau orgyffwrdd. Y categorïau sy’n berthnasol i’r adroddiad hwn yw: camdriniaeth neu esgeulustod; teulu sydd dan bwysau difrifol; rhiant sy’n absennol; anabledd neu salwch plentyn neu riant; a chamweithrediad teulu.

# Canfyddiadau allweddol

## Mae nifer y babanod sy’n cael eu derbyn i ofal wedi cynyddu ledled Cymru, er bod amrywiadau rhanbarthol sylweddol

Rhwng 1 Ebrill 2003 a 31 Mawrth 2021 yng Nghymru, cafodd 6,333 o fabanod eu derbyn i ofal am y tro cyntaf. O’r babanod hyn, roedd 45% (2,879) yn iau na 4 wythnos oed. Roedd dros draean (38%, 2,430) yn fabanod newydd-anedig.

Yn 2020/21, derbyniwyd 353 o fabanod i ofal am y tro cyntaf – 54% yn fwy nag yn 2003/4, pan dderbyniwyd 230 o fabanod i ofal am y tro cyntaf. Amrywiodd nifer y babanod a dderbyniwyd i ofal yn y blynyddoedd yn y canol. Er enghraifft, derbyniwyd 347 o fabanod i ofal yn 2009/10 o gymharu â 276 yn y flwyddyn flaenorol, gan godi i 451 yn 2018/19 cyn gostwng eto yn 2019/20 a 2020/21.


Er bod nifer y babanod iau na blwydd oed yn y boblogaeth wedi bod yn gostwng yng Nghymru ers 2012, mae’r nifer sy’n cael eu derbyn i ofal dros amser wedi cynyddu.

Y mynychder uchaf a gofnodwyd o fabanod a dderbyniwyd i ofal am y tro cyntaf yng Nghymru yn ystod cyfnod yr astudiaeth oedd yn 2018/19, pan dderbyniwyd 141 o fabanod fesul 10,000 o’r boblogaeth i ofal.[6] Erbyn 2020/21, roedd y gyfradd fynychder wedi gostwng ychydig i 120 fesul 10,000, i fyny o 74 fesul 10,000 yn 2003/4.

---

[6] Mae cyfraddau mynychder yn rhoi darlun mwy eglur o’r tebygolrwydd y bydd babanod yn y boblogaeth gyffredinol yn cael eu derbyn i ofal, ac fe’u mynegir fel nifer y babanod a dderbyniwyd i ofal fesul 10,000 o fabanod yn y boblogaeth gyffredinol.

**Ffigur 1: Cyfraddau mynychder – babanod a dderbyniwyd i ofal am y tro cyntaf fesul 10,000 o fabanod yn y boblogaeth gyffredinol**




Roedd cyfraddau mynychder babanod a dderbyniwyd i ofal am y tro cyntaf yn amrywio cryn dipyn rhwng y 22 awdurdod lleol yng Nghymru, gyda 7 awdurdod lleol â chyfraddau mynychder uwch na'r cyfartaledd, a 9 awdurdod lleol â chyfraddau mynychder is na'r cyfartaledd. Mae cysylltiad ag amddifadedd ardal, gan fod cyfran y babanod sy'n cael eu derbyn i ofal yn cynyddu law yn llaw â lefelau amddifadedd uwch, er bod angen bod yn ofalus wrth ystyried y canfyddiad hwn gan fod data amddifadedd ar goll ar gyfer 20% o'r sampl.[7]

O fewn y tair ardal Barnwr Teulu Dynodedig, nid oedd cyfraddau mynychder yn amrywio llawer rhwng awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru, roedd rhywfaint o amrywiaeth rhwng awdurdodau lleol yng Nghaerdydd a De-ddwyrain Cymru, ac roedd cryn amrywiaeth rhwng awdurdodau lleol yn Abertawe a De-orllewin Cymru.


Mae'n ymddangos bod ethnigrwydd babanod sy'n cael eu derbyn i ofal yn debyg i gyfansoddiad ethnig yr holl fabanod yng Nghymru, er y dylid bod yn ofalus wrth ddehongli hyn gan na chafwyd gwybodaeth am ethnigrwydd ar gyfer 5% o'n sampl. O'r babanod a dderbyniwyd i ofal, roedd 88% yn Wyn, roedd 3% o ethnigrwydd Cymysg neu luosog, disgrifiwyd bod 2% yn perthyn i 'Grŵp ethnig arall', roedd 1% yn Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig, ac roedd 1% yn Ddu, Affricanaidd, Caribïaidd neu Ddu Prydeinig.[8]

---

[7] Cysylltwyd set ddata Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 (Llywodraeth Cymru 2019), sydd wedi'i seilio ar godau post, â'r data plant sy'n derbyn gofal i helpu i ddeall effaith amddifadedd. Fodd bynnag, mae data ar goll yma oherwydd nid yw gwybodaeth am god post y cartref yn cael ei chofnodi bob amser yn y data plant sy'n derbyn gofal.

[8] Defnyddiodd yr awduron yr un pum categori grŵp ethnig lefel uchel â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yng nghyfrifiad 2011.


**Ffigur 2: Ethnigrwydd babanod a dderbyniwyd i ofal am y tro cyntaf**




# Derbyniwyd dros hanner y babanod yn yr astudiaeth hon i ofal am y tro cyntaf o dan drefniant gwirfoddol

Derbyniwyd dros hanner (54%) y babanod yn yr astudiaeth i ofal am y tro cyntaf o dan drefniadau gwirfoddol a.76, a derbyniwyd ychydig dros draean (37%) o dan orchymyn gofal interim. Rhwng 2003/4 a 2016/17, derbyniwyd cyfran fwy o fabanod i ofal o dan drefniadau gwirfoddol bob blwyddyn. Yna, gwrthdrowyd y duedd. Erbyn 2020/21, derbyniwyd tua'r un gyfran o fabanod i ofal am y tro cyntaf o dan orchymyn gofal interim ag o dan drefniant gwirfoddol.

**Ffigur 3: Cyfraddau mynychder – nifer y babanod a dderbyniwyd i ofal am y tro cyntaf fesul 10,000 o fabanod yn y boblogaeth gyffredinol, yn ôl statws cyfreithiol**




Mewn sefyllfaoedd prin, gellir symud plant oddi wrth eu rhieni o dan orchymyn amddiffyn brys neu gellir eu derbyn i amddiffyniad gan yr heddlu. Gellir darparu llety a.76 i blant hefyd ar ffurf seibiant byr neu ofal seibiant. Yn ystod cyfnod yr astudiaeth, symudwyd 5% o fabanod i amddiffyniad gan yr heddlu, symudwyd 3% o dan orchymyn amddiffyn brys, a derbyniwyd llai nag 1% o dan a.76 ar gyfer seibiant byr.

Mae llawer mwy o amrywiaeth rhwng awdurdodau lleol o ran defnyddio trefniadau gwirfoddol na gorchmynion gofal interim. Mae'n ymddangos bod yr amrywiad o ran defnyddio llwybrau gwirfoddol a gorfodol i ofal yn fater o ffafriaeth ddiwylliannol leol, ond mae angen ymchwilio ymhellach i'r rhesymau dros y gwahaniaethau hyn. Roedd gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol gyfraddau mynychder uwch o fabanod a dderbyniwyd i ofal o dan drefniadau gwirfoddol nag o dan orchymyn gofal interim. Fodd bynnag, yr ardaloedd â'r cyfraddau mynychder uchaf o fabanod a dderbyniwyd i ofal yn gyffredinol oedd y rhai a oedd yn gwneud y defnydd mwyaf o drefniadau gwirfoddol – ac roedd yr ardaloedd hyn ymhlith y rhai tlotaf yng Nghymru hefyd. Ers 2014/15, ceir tuedd gyffredinol tuag at orchmynion gofal interim fel y modd o dderbyn i ofal.

Wrth edrych ar gyfraddau mynychder yn ôl ardal Barnwr Teulu Dynodedig, mae'n amlwg mai Gogledd Cymru yw'r unig ardal lle y ceir mynychder uwch o fabanod a dderbynnir i ofal o dan orchmynion gofal interim nag o dan drefniadau gwirfoddol. Yn ogystal, mae mynychder sylweddol is o fabanod yn derbyn gofal o dan drefniadau gwirfoddol yng Ngogledd Cymru nag yng Nghaerdydd a De-ddwyrain Cymru, ac Abertawe a De-orllewin Cymru.

Yn y rhan fwyaf o achosion yn yr astudiaeth hon, y rheswm dros dderbyn plentyn i ofal oedd camdriniaeth neu esgeulustod.[9] Fodd bynnag, disgrifiwyd bod cyfran lai o fabanod a dderbyniwyd i ofal o dan drefniadau gwirfoddol (70%) wedi cael eu derbyn i ofal am y rheswm hwn na babanod a dderbyniwyd i ofal trwy achos gofal, gorchymyn amddiffyniad gan yr heddlu, neu orchymyn amddiffyn brys (79%).

At ei gilydd, mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod awdurdodau lleol yn amrywio o ran pa lwybrau i ofal a ffefrir ganddynt, yn hytrach na gwahaniaethau sy'n adlewyrchu angen neu risg sylfaenol.

## Mae'r rhan fwyaf o drefniadau gwirfoddol yn dod yn drefniadau gorfodol o fewn dwy flynedd

Rhwng 2003/4 a 2018/19 (yn hytrach na 2021), derbyniwyd 5,077 o fabanod i ofal trwy a.76 neu orchymyn gofal interim, a derbyniwyd 3,094 (61%) trwy a.76 a 1,983 trwy orchymyn gofal interim. O'r babanod a dderbyniwyd i ofal gyntaf o dan a.76 yn ystod y cyfnod hwn, daeth dwy ran o dair (63%) yn destun gorchymyn gorfodol wedi hynny o fewn 2 flynedd o gael eu derbyn i ofal. Gan edrych ar fabanod newydd-anedig ar wahân, roedd y gyfran a dderbyniwyd i ofal gyntaf o dan drefniadau gwirfoddol a ddaeth yn destun gweithredu gorfodol o fewn 2 flynedd, ychydig yn uwch, sef 70%. Yn aml, digwyddodd hyn yn gyflym iawn: mewn 43% o achosion, gwnaed gorchmynion gofal interim o fewn pedair wythnos, a chynyddodd hyn i 53% ar gyfer babanod newydd-anedig. At ei gilydd, mae'n ymddangos bod babanod newydd-anedig sy'n cael eu derbyn i ofal am y tro cyntaf trwy gyfrwng trefniadau gwirfoddol yn fwy tebygol o ddod yn destun gweithredu gorfodol na babanod hŷn. Yn ogystal, ar gyfer y grŵp oedran hwn, mae achosion gofal yn cael eu cychwyn yn gyflymach ac yn dod i ben yn gyflymach o orchymyn gofal interim i orchymyn gofal neu leoli.

Roedd cryn amrywiaeth rhwng awdurdodau lleol o ran cyfran y babanod a ddaeth yn destun gorchymyn gorfodol yn ddilynol, a faint o amser a gymerodd, ond nid oedd perthynas glir rhwng y ddau newidyn hyn o fewn awdurdodau lleol.

Dros amser, mae llawer mwy o fabanod a dderbyniwyd i ofal o dan drefniadau gwirfoddol wedi dod yn destun gorchymyn gofal interim a gorchymyn gofal/lleoli llawn, ac mae'r amser a gymerwyd i'r gorchmynion hyn gael eu gwneud wedi lleihau.

[9] Mae awdurdodau lleol yn dewis un categori sy'n fwyaf perthnasol i amgylchiadau plentyn o godau categori angen pan dderbynnir y plentyn i ofal gyntaf. Y rhai sy'n fwyaf perthnasol i'r astudiaeth hon yw: camdriniaeth neu esgeulustod; teulu sydd dan bwysau difrifol; rhiant sy'n absennol; anabledd neu salwch plentyn neu riant; a chamweithrediad teulu.

Yn y grŵp na ddaeth yn destun gweithredu gorfodol, roedd mwy o fabanod mewn gofal oherwydd anabledd plentyn neu riant, rhiant sy'n absennol, neu bwysau difrifol yn y teulu. Fodd bynnag, roedd trefniadau gwirfoddol yn cael eu defnyddio o hyd ar gyfer babanod a oedd mewn gofal oherwydd pryderon ynglŷn â chamdriniaeth ac esgeulustod; roedd dros hanner (57%) y babanod na ddaethant yn destun gweithredu gorfodol wedi cael eu derbyn i ofal oherwydd pryderon ynglŷn â chamdriniaeth neu esgeulustod. Felly, mae'n ymddangos bod awdurdodau lleol yn rheoli risg trwy berthnasoedd gwirfoddol â rhieni, nad ydynt yn arwain at weithredu gorfodol yn y pen draw.


## Mae'n ymddangos bod y llwybr derbyn i ofal yn dylanwadu ar ganlyniad y lleoliad

Roedd lleoliadau cychwynnol ar gyfer 5,077 o fabanod a dderbyniwyd i ofal rhwng 2003 a 2019 yn amrywio rhwng babanod newydd-anedig a babanod hŷn.

Lleolwyd cyfran fwy o fabanod newydd-anedig â gofalwyr maeth nad oeddent yn berthynas, mewn uned mam a baban, neu mewn lleoliad meddygol preswyl i ddechrau, tra lleolwyd cyfran fwy o fabanod hŷn mewn gofal maeth teulu neu ffrindiau neu gyda'u rhieni.

Dim ond tua chwarter o'r babanod a leolwyd gyda'u rhieni neu gyda pherthynas oedd yn fabanod newydd-anedig. Felly, gwahanu oddi wrth rieni a pherthnasau ar unwaith yw'r canlyniad ar gyfer y rhan fwyaf o fabanod newydd-anedig (73%), beth bynnag fo'r llwybr i ofal.


**Ffigur 4: Mathau o leoliadau ar gyfer babanod wrth gael eu derbyn i ofal yn ôl oedran**[10]




Nid yw'r rhan fwyaf o fabanod (85%) sy'n cael eu derbyn i ofal o dan orchymyn gofal interim yn cael eu lleoli gyda'u rhieni. Mae'r rhan fwyaf o fabanod sy'n cael eu derbyn i ofal o dan drefniadau gwirfoddol yn cael eu lleoli gyda gofalwyr maeth nad ydynt yn berthynas, a dim ond 16% sy'n cael eu lleoli gyda pherthynas.

[10] O ganlyniad i niferoedd bach a rhesymau datgelu ystadegol, mae rhai mathau o leoliadau yn ôl categori oedran wedi cael eu cuddio ac felly mae'n bosibl na fydd y canrannau'n dod i 100%. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau 'eraill' a lleoliadau mewn uned mam a baban.

**Ffigur 5: Mathau o leoliadau ar gyfer babanod wrth gael eu derbyn i ofal yn ôl statws cyfreithiol[11]**





O’r babanod a dderbyniwyd i ofal gyntaf rhwng 2003 a 2019, roedd 64% o’r rhai a dderbyniwyd i ofal o dan a.76 a 43% o’r rhai a dderbyniwyd i ofal o dan orchymyn gofal interim wedi gadael o fewn 2 flynedd. O’r rhai a adawodd, roedd dros hanner (59%) o’r rhai a dderbyniwyd i ofal o dan a.76 wedi dychwelyd adref at eu rhieni neu wedi dychwelyd i berthynas gyda gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig, o gymharu â 36% o fabanod a dderbyniwyd i ofal o dan orchymyn gofal interim. Mewn cyferbyniad, roedd dros hanner (55%) y babanod a dderbyniwyd i ofal o dan orchymyn gofal interim wedi cael eu mabwysiadu o gymharu ag ychydig o dan 34% o’r rhai a dderbyniwyd trwy a.76.

Felly, mae’n ymddangos bod y llwybr derbyn i ofal yn gysylltiedig â’r canlyniad sefydlogrwydd terfynol i fabanod, a bod mwy o’r rhai a dderbyniwyd i ofal ar sail wirfoddol i ddechrau yn cael eu cadw gyda’u teulu (gyda’u rhieni neu berthynas).

[11] Mae babanod â lleoliadau ‘eraill’ yn cynnwys y rhai hynny a leolwyd i’w mabwysiadu, y rhai hynny a leolwyd mewn cartrefi a hostelau neu gartrefi gofal preswyl, y rhai hynny a oedd yn absennol o ofal am fwy na 24 awr, a’r rhai hynny â lleoliadau nad ydynt wedi’u rhestru. Heb adolygiad clercol o achosion, nid oes modd rhoi manylion pellach.

**Ffigur 6: Rhesymau dros adael gofal ar gyfer babanod a adawodd ofal o fewn dwy flynedd o gael eu derbyn am y tro cyntaf, yn ôl statws cyfreithiol wrth gael eu derbyn i ofal gyntaf**





Nid oedd dros draean o fabanod a dderbyniwyd i ofal o dan a.76 (37%) wedi dod yn destun gweithredu gorfodol, ac roedd 94% o'r babanod hynny wedi gadael gofal ar adeg y gwaith dilynol ar ôl 2 flynedd, gyda'r mwyafrif (74%) yn dychwelyd adref at eu rhieni. O'r 6% o'r grŵp hwn a oedd mewn gofal o hyd ar adeg y gwaith dilynol ar ôl 2 flynedd, roedd y rhan fwyaf wedi'u lleoli mewn gofal maeth.

## Mae babanod yn profi ansefydlogrwydd sylweddol

Cafodd cyfran sylweddol (tua 30%) o fabanod newydd-anedig a babanod iau na 6 mis oed 3 lleoliad neu fwy o fewn y cyfnod dilynol 2 flynedd. Roedd babanod newydd-anedig yn debygol o gael mwy o leoliadau na'r rhai a dderbyniwyd i ofal pan oeddent yn 6 i 12 mis oed. Cafodd babanod a dderbyniwyd i ofal o dan drefniadau gwirfoddol lai o leoliadau na'r rhai a dderbyniwyd i ofal o dan orchymyn gofal interim.

**Ffigur 7: Nifer y lleoliadau o fewn dwy flynedd o gael eu derbyn i ofal, yn ôl grŵp oedran wrth gael eu derbyn i ofal gyntaf**




Gadawodd nifer fach (9%) o fabanod ofal o fewn y cyfnod dilynol 2 flynedd a dychwelsant i ofal o fewn yr un cyfnod. Roedd y rhan fwyaf o fabanod a adawodd ac a ddychwelodd i ofal o fewn 2 flynedd wedi cael eu derbyn i ofal gyntaf o dan a.76 ac wedi dychwelyd i ofal o dan a.76 hefyd. Bydd yn bwysig gwneud mwy o waith dilynol a dadansoddi ynglŷn â'r nifer fach ond agored i niwed hon o fabanod, i daflu goleuni ar eu llwybrau tymor hwy a'u canlyniadau sefydlogrwydd.

Yn seiliedig ar y canfyddiadau hyn, babanod sy'n cael eu derbyn i ofal ar sail wirfoddol yw'r rhai sy'n symud lleoliad y nifer leiaf o weithiau. I'r gwrthwyneb, o ran babanod a dderbyniwyd i ofal gyntaf trwy lwybr gorfodol, roedd dros 30% wedi cael 3 lleoliad neu fwy. Er ei bod yn werth nodi bod rhai symudiadau'n cael eu cynllunio am resymau cadarnhaol, y babanod ieuengaf oll sy'n destun achosion gofal – babanod newydd-anedig – yw'r rhai sydd â'r cyfraddau uchaf o ansefydlogrwydd lleoliad.

Fel y dadleuwyd yn flaenorol, babanod newydd-anedig yw'r rhai sy'n fwyaf tebygol o fod yn destun penderfyniadau brysiog neu ar fyrder (Pattinson et al. 2021; Broadhurst et al. 2022) – ac fe allai hyn esbonio nifer y symudiadau gofal. Mae'r canfyddiadau hyn yn atgyfnerthu'r angen i fuddsoddi yn Fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar Cymru, sy'n ceisio lleihau nifer y lleoliadau a gaiff blentyn a'i helpu i gyflawni sefydlogrwydd cyn gynted â phosibl ar ôl cael ei symud oddi wrth ei deulu.[12]

[12] I gael rhagor o fanylion am y fframwaith, gweler: https://www.adoptcymru.com/welsh-early-permanence-framework

# Casgliadau

**Amlygodd yr astudiaeth bedwar prif lwybr ar gyfer babanod sy’n cael eu derbyn i ofal o dan drefniadau gwirfoddol neu orchymyn gofal interim.**

1. **Babanod sy’n cael eu derbyn i ofal gyda chytundeb gwirfoddol rhieni o dan a.76, ac sy’n aros yn destun llety gwirfoddol fel gwasanaeth cymorth i deuluoedd.**

   Nid oedd y babanod hyn – 37% o’r rhai a dderbyniwyd i ofal o dan drefniadau gwirfoddol – wedi symud ymlaen i achos gofal. Yn hytrach, mae’n ymddangos bod awdurdodau lleol yn cynnig llety gwirfoddol fel gwasanaeth cymorth i deuluoedd, yn unol ag amcanion Rhan III Deddf Plant 1989.

   Ar adeg y gwaith dilynol 2 flynedd, roedd 94% o’r plant hyn wedi gadael gofal, ac roedd tri chwarter wedi dychwelyd adref at eu rhieni.

   Mae’r canfyddiadau’n dangos yn glir bwysigrwydd a.76 fel opsiwn i awdurdodau lleol a theuluoedd gydweithio’n wirfoddol lle mae angen cymorth ychwanegol, gan gynnwys gofal y tu allan i’r cartref, ar gyfer y babanod ieuengaf oll.

2. **Babanod sy’n cael eu derbyn i ofal gyda chytundeb gwirfoddol rhieni, ond sy’n dod yn destun achos gofal wedi hynny, yn nodweddiadol o fewn tua 4 wythnos.**

   Roedd bron dwy ran o dair (63%) o’r babanod a fu’n destun trefniadau a.76 i ddechrau wedi dod yn destun achos gofal wedi hynny. Mae hyn yn gyfran weddol fawr ac, o ystyried mai dim ond 4.5 wythnos oedd yr amser canolrifol i’r newid, mae’n awgrymu bod a.76 fel petai’n sefyllfa ‘ddal’ ar gyfer y babanod hyn, ar y ffordd i achos gofal.

   Dros amser, mae’r cyfnod rhwng cytundeb gwirfoddol cychwynnol ac achos gofal wedi lleihau – sy’n dangos bod awdurdodau lleol yn gwrando ar gyngor gan y farnwriaeth na ddylent oedi cyn cychwyn achos gofal pan fydd lles y plant yn gofyn am ymyrraeth orfodol.

3. **Babanod sy’n cael eu derbyn i ofal trwy achosion gofal ac sy’n cael eu lleoli mewn gofal y tu allan i’r cartref.**

   Mae’r rhan fwyaf o fabanod sy’n cael eu derbyn i ofal trwy achosion gofal yn cael eu lleoli mewn gofal y tu allan i’r cartref i ddechrau. Ar adeg y gwaith dilynol ar ôl 2 flynedd, dim ond 34% o fabanod a dderbyniwyd i ofal trwy achosion gofal oedd wedi dychwelyd adref at eu

rhieni neu berthynas, neu a leolwyd gartref, ac roedd 43% naill ai wedi cael eu mabwysiadu neu wedi'u lleoli i'w mabwysiadu.

At ei gilydd, mae babanod sy'n cael eu derbyn i ofal trwy orchymyn gofal interim yn llai tebygol o ddychwelyd adref at eu rhieni neu berthynas o gymharu â'r rhai hynny sy'n cael eu derbyn trwy drefniadau gwirfoddol.

4. **Babanod sy'n cael eu derbyn i ofal trwy achosion gofal ond sy'n cael eu lleoli gyda'u rhieni.**

   Mae p'un a ddylai babanod sy'n ymwneud ag achosion gofal gael eu lleoli gyda'u rhieni o dan orchymyn gofal wedi bod yn destun cryn drafodaeth, ond mae'r dystiolaeth empirig wedi bod yn brin.

   Yn yr astudiaeth hon, canfuom fod 15% o fabanod a dderbyniwyd i ofal gyntaf o dan orchymyn gofal interim wedi cael eu lleoli gyda'u rhieni i ddechrau. Ar adeg y gwaith dilynol, o'r rhai a dderbyniwyd i ofal trwy orchymyn gofal interim ac a oedd mewn gofal o hyd (934), roedd traean (297, 32%) wedi cael eu lleoli gyda'u rhieni – a allai ddangos bod hyn yn helpu i gadw'r teulu gyda'i gilydd, er bod angen gwneud mwy o waith i olrhain y grŵp penodol hwn o fabanod a chadarnhau'r ddamcaniaeth hon.

## Mae babanod sy'n cael eu derbyn i ofal trwy achosion gofal yn gyntaf, ac nad ydynt yn cael eu lleoli gyda'u rhieni, yn fwy tebygol o gael eu gwahanu'n barhaol oddi wrth eu rhieni geni a'u teuluoedd estynedig na babanod sy'n cael eu derbyn i ofal trwy drefniadau gwirfoddol yn gyntaf.

Fodd bynnag, nid oes rhaniad 'taclus' i'w weld rhwng ymyrraeth wirfoddol a gorfodol – yn hytrach, mae symudiad rhwng y ddau, yn ogystal â thystiolaeth o ddefnyddio achosion gofal fel dull o gefnogi a gwarchod 'lleoliad' gyda rhieni.

## Mae angen dadansoddi'r amrywiad rhwng awdurdodau lleol ymhellach.

Gellid ystyried bod addasiadau mewn ymarfer yn ymateb cadarnhaol i'r cyfuniad o ffactorau y mae'n rhaid eu rheoli ar lefel leol, gan gynnwys angen, adnoddau a blaenoriaethau dyfarnwyr lleol (y barnwyr). Fodd bynnag, mae'n amlwg bod y modd o dderbyn i ofal yn bwysig – ynghyd â'r lleoliad cychwynnol.

# Cyfeiriadau


Allnatt, G., Lee, A., Scourfield, J., Elliott, M., Broadhurst, K. a Griffiths, L. (2022). Data resource profile: children looked after administrative records in Wales. *International Journal of Population Data Science, 7*(1), 1752. https://doi.org/10.23889/ijpds.v7i1.1752

Alrouh, B., Broadhurst, K., Cusworth, L., Griffiths, L. J., Johnson, R. D., Akbari, A. a Ford, D. (2019). *Mewn gofal o'u geni. Babanod newydd-anedig a phlant bach mewn achosion gofal yng Nghymru*. Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. https://www.nuffieldfjo.org.uk/resource/born-into-care-wales

Broadhurst, K., Alrouh, B., Mason, C., Ward, H., Holmes, L., Ryan, M. a Bowyer, S. (2018). *Born into care: Newborns in care proceedings in England*. Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. https://www.nuffieldfjo.org.uk/resource/born-into-care-newborns-in-care-proceedings-in-england-final-report-october-2018

Broadhurst, K., Mason, C. a Ward, H. (2022). Urgent care proceedings for new-born babies in England and Wales: time for a fundamental review. *International Journal of Law, Policy and The Family, 36*(1). https://academic.oup.com/lawfam/article/36/1/ebac008/6540595

Doebler, S., Alrouh, B., Broadhurst, K., Bedston, S., Cusworth, L., Akbari, A., Ford, D. a Griffiths, L. J. (2021). *Born into care: unpacking the impact of area-level deprivation in Wales*. Y Ganolfan Ymchwil Cyfiawnder Plant a Theuluoedd. https://www.cfj-lancaster.org.uk/files/documents/BiC_dep_Wales_report.pdf

Ford, D. V, Jones, K. H., Verplancke, J. P., Lyons, R. A., John, G., Brown, G., Brooks, C. J., Thompson, S., Bodger, O., Couch, T. a Leake, K. (2009). The SAIL Databank: Building a national architecture for e-health research and evaluation. *BMC Health Services Research*, 9, 157. https://doi.org/10.1186/1472-6963-9-157

Griffiths, L. J., Johnson, R. D., Broadhurst, K., Cusworth, L., Bedston, S., Akbari, A., Lee, A., Alrouh, B., Doebler, S., John, A. a Ford, D. (2020a). *Mewn gofal o'u geni: Mil o famau mewn achosion gofal yng Nghymru.* Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. https://www.nuffieldfjo.org.uk/resource/1000-mothers-care-proceedings-wales

Griffiths, L. J., Johnson, R. D., Broadhurst, K. a John A. (2020b). *Mewn gofal o'u geni: Mil o famau mewn achosion gofal yng Nghymru. Ffocws ar iechyd meddwl mamau*. Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

https://www.nuffieldfjo.org.uk/resource/born-into-care-maternal-mental-health

Lyons, R. A., Jones, K.H., John, G., Brooks, C. J., Verplancke, P., Ford, D. V., Brown, G. a Leake, K. (2009). The SAIL Databank: linking multiple health and social care datasets. *BMC Medical Informatics and Decision Making*, 9:3. https://doi/10.1186/1472-6947-9-3

Pattinson, B., Broadhurst, K., Alrouh, B., Cusworth, L., Doebler, S., Griffiths, L. J., Johnson, R. D., Akbari, A. a Ford, D. (2021). *Babanod newydd-anedig mewn achosion gofal brys yng Nghymru a Lloegr*. Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. https://www.nuffieldfjo.org.uk/resource/newborn-babies-urgent-care-proceedings

Llywodraeth Cymru. (2019). *Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru*. StatsCymru. https://statswales.gov.wales/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/ Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation/WIMD-2019

# Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield

Nod Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield yw cefnogi'r penderfyniadau gorau posibl i blant trwy wella'r defnydd o ddata a thystiolaeth ymchwil yn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru a Lloegr. Gan ymdrin â chyfraith gyhoeddus a phreifat, mae Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield yn darparu gwaith dadansoddi ac ymchwil hygyrch i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y llysoedd teulu.

Sefydlwyd Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield gan Sefydliad Nuffield, sef ymddiriedolaeth elusennol annibynnol sy'n ceisio hybu lles cymdeithasol. Mae'r Sefydliad yn ariannu ymchwil sy'n llywio polisi cymdeithasol, a hynny'n bennaf ym meysydd addysg, lles, a chyfiawnder. Mae hefyd yn ariannu rhaglenni myfyrwyr er mwyn i bobl ifanc ddatblygu sgiliau a hyder mewn dulliau meintiol a gwyddonol. Sefydliad Nuffield yw sylfaenydd a chyd-ariannwr Sefydliad Ada Lovelace a Chyngor Biofoeseg Nuffield.

# Y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol

Mae'r Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol yn gydweithrediad rhwng Prifysgol Caerhirfryn a Phrifysgol Abertawe, ac mae Cafcass a Cafcass Cymru yn rhanddeiliaid allweddol. Fe'i hariennir gan Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

# Banc Data SAIL

Mae'r data Cafcass [Lloegr] a Cafcass Cymru a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth hon ar gael o'r Banc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) ym Mhrifysgol Abertawe, sy'n rhan o'r seilwaith ymchwil cofnodion e-iechyd cenedlaethol ar gyfer Cymru. Mae pob cynnig i ddefnyddio'r data hwn yn destun adolygiad a chymeradwyaeth gan Banel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth (IGRP) SAIL. Pan roddir mynediad, fe'i ceir trwy hafan ddiogel sy'n diogelu preifatrwydd a system mynediad o bell, y cyfeirir ati fel Porth SAIL. Dylai unrhyw un sy'n dymuno cyrchu data ddilyn canllawiau'r broses ymgeisio sydd ar gael yn: www.saildatabank.com/application-process

Hawlfraint © Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield 2023
100 St John St, Llundain EC1M 4EH Rhif ffôn: 020 7631 0566

Rhan o Sefydliad Nuffield: Elusen gofrestredig 206601
nuffieldfjo.org.uk | @NuffieldFJO www.nuffieldfoundation.org | @NuffieldFound